



Penlan

Wrth ymweld ag Eglwys Llandygai, gwelwyd llun hynod o ddiddorol yn yr arddangosfa.

Roedd ysgrif o dan y llun.

Roedd yr ysgrif yn dangos mai ym Mhenlan oedd J Williams yn byw.

Tybed ble roedd Penlan?



Roedd yn agos iawn i'r ysgol, ac wrth ymyl y Clwb Rygbi.



Mae'r plant yn cael croeso gan y perchennog presennol, roedd yntau hefyd wedi dod o hyd i wybodaeth arbennig ynglyn a merched John Williams. Roedd rhannau o'r tŷ yn dyddio'n ôl i'r ddeunawfed ganrif.

Gwelwyd ar Gyfrifiad Penlan 1901, mai John Williams oedd Pensaer Stad y Penrhyn a bod ganddo nifer o blant, 6 merch ac un mab.


Mae'n ŵr gweddw erbyn hyn, felly mae'n rhaid bod ei wraig wedi marw ers cyfrifiad 1891.



John Williams	Head	Widr	56	Architect & Surveyor
Mary Do	daughter	Single	32	Teacher of Cookery
Sarah Do	Do	do	30	House keeper
Annie Do	Do	do	29	Domestic House worker
Ellen Do	Do	do	27	Press maker
Hannah Do	Do	do	25	Teacher of Cookery
John Do	Son	do	22	Farmer
Jane Do	daughter	do	18	
William Roberts	Head	S	40	Dog Schman (not domestic)
William Henry Roberts	Boarder	S	23	General Labourer
Mary Griffiths	Servant	S	24	General Domestic


Edrychodd y plant ar y manylion cyfrifiad 1901 er mwyn gallu llunio coeden deulu ar gyfer Teulu Penlan. Roedd cyfrifiad 1891 hefyd yn berthnasol er mwyn darganfod rhagor o wybodaeth neu aelodau ychwanegol.

Coeden Deulu Penlan




Dyma graff Jake (b4) yn dangos oed teulu Penlan ym 1891 ar ôl edrych ar fanylion y cyfrifiad.

Y cam nesaf oedd ceisio dod o hyd i fedd John Williams ac aelodau eraill o'r teulu. Wrth lwc, roedd cynllun ar gael er mwyn gosod y fynwent mewn gwahanol adrannau. Roedd cofnodion y fynwent yn dangos mai yn adran **F** oedd y bedd.



Daethpwyd o hyd i fedd John Williams yn y fynwent, roedd ei wraig Hannah a' ferch Annie wedi'u claddu yno hefyd.

Roedd cofnod hefyd o'r mab John a fu farw yn Rushton, Northamptonshire.





Roeddem nawr yn gallu
dyddio'r llun gwreiddiol -
Mehffin 1927, sef dyddiad
marw John Williams.



1927



Roedd yn wych derbyn llun o John Williams, Penlan, drwy gydweithio a'r Eglwys.
Yn y llun hwn gwelwn ef gyda dau o'i wyrion, sef Aelwyn a Trevor (meibion ei fab Hugh). Tynnwyd
y llun tua 1915. Gwelwn bwysicrwydd cyhoeddi'r gwaith ar y we fel bod prosiectau'r ysgol yn dod
yn rhan o archif y gymuned, a bod yr ysgol yn gallu cyfrannu drwy gydweithio a sefydliadau eraill
fel yr eglwys er mwyn creu archif ar gyfer y dyfodol.



Cawsom ymweliad gan Mr John Williams, o Devon, a oedd yn hen wŷr i John Williams, Penlan. Roedd yntau hefyd yn ymchwilio hanes ei deulu.

Dangosodd Mr Williams dudalen o lyfr a dderbyniodd ei daid (a oedd hefyd yn John Williams) gan Edwin Jackson, prifathro Ysgol Llandygai, ar ddathliad ei briodas ym 1913.



Roedd llun pensel diddorol iawn o ysgol Llandygai hefyd yn y llyfr.



Bu'n cyfarfod rhai o'r disgyblion a rhyfeddodd Mr Williams at ddawn rhai ohonynt pan yn galw i gof y ffeithiau hanesyddol.